Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Y Login Fach

**Roseland Road**
**Waunarlwydd**
**Abertawe**
**SA5 4ST**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymraeg Y Login Fach

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gymraeg Y Login Fach |
| Awdurdod lleol | Dinas a Sir Abertawe |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Ddim yn ysgol enwadol |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 245 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 207 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 38 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 14.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 20.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 13.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 2.5% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 17/04/2023 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 03/03/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 15/05/2023 |
| Mae'r pennaeth yn newydd i'r ysgol ac ond wedi bod yn y swydd ers yr wythnos yn dilyn gwyliau'r Pasg. | |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
[Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae'r ysgol yn gymuned gartrefol sy'n hyrwyddo lles disgyblion yn llwyddiannus. Mae bron bob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn, ac mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Mae bron bob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth. Mae lles ac agweddau cadarnhaol y disgyblion at ddysgu yn gryfder amlwg yn yr ysgol. Rhoddir blaenoriaeth i sicrhau bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o'u hawliau ac am bwysigrwydd annog cydraddoldeb a bod yn ddinasyddion moesol. Mae bron bob un o'r disgyblion yn falch eu bod yn mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg ac maent yn defnyddio'r iaith yn gyson yn y dosbarthiadau ac yn ystod amser egwyl.

Mae gan y rhan fwyaf o'r athrawon a'r staff cynorthwyol ddisgwyliadau uchel o bob disgybl. Maent yn adnabod eu disgyblion yn dda, yn canmol eu hymdrechion ac yn eu hannog i lwyddo. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn hyderus i roi cynnig arni ac yn hapus i ddysgu o'u camgymeriadau. Darperir cwricwlwm diddorol a chytbwys i'r disgyblion ac mae staff yn ystyried eu syniadau hwythau wrth gynllunio, er mwyn sicrhau bod ganddynt berchnogaeth dros eu tasgau. Er hyn, nid ydynt bob amser yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd nac ysgrifennu estynedig, lle bo'n briodol, ar draws y cwricwlwm.

Er bod sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol wedi bod yn ansefydlog dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae pennaeth newydd bellach wedi cychwyn ar ei gwaith. Yr hyn sy'n bwysig iddi yw bod yr ysgol yn cynnig profiadau dysgu eang, cyffrous a diddorol i'r disgyblion, sy'n eu hysgogi i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol a brwdfrydig. Mae'n awyddus i gydweithio â'r llywodraethwyr, y rhieni, yr athrawon, y staff cynorthwyol ac aelodau'r uwch dîm arwain i sicrhau bod yr ysgol yn lle hapus a diogel sy'n parchu cyfraniad pob aelod o'u cymuned.

Er bod gan yr ysgol brosesau hunanwerthuso i geisio adnabod ei chryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella, nid ydynt yn ddigon miniog nac wedi sefydlogi'n ddigon cadarn i gael yr effaith orau ar y ddarpariaeth na safonau.

Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol yn dda. Er hyn, maent yn dibynnu gormod ar arweiniad gan y staff i wella'r ysgol ac yn tueddu i ddarparu mwy o gymorth na her yn eu rôl fel cyfeillion beirniadol.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod prosesau arweinyddol yn sefydlogi ac yn arwain at wella

A2 Cryfhau rôl y llywodraethwyr i'w galluogi i weithredu'n effeithiol fel cyfeillion beirniadol

A3 Darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd ac ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rheini sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn.

Yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn, mae llawer yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa'n bwrpasol mewn sefyllfaoedd amrywiol. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau oedolion ac yn dangos parch at farn eu cyfoedion. Ym Mlwyddyn 4, mae'r rhan fwyaf yn trafod pynciau amrywiol yn hyderus fel manteision ac anfanteision gwisg ysgol. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn cyfathrebu'n rhugl yn y ddwy iaith. Maent yn gwrando'n dda ar ei gilydd ac yn parchu safbwyntiau eraill wrth drafod testunau amrywiol. Maent yn defnyddio geirfa addas, er enghraifft i drosleisio ffilm sy'n sôn am ddiogelwch ar y we. Mae bron pob un yn falch eu bod yn medru siarad Cymraeg ac maent yn gwneud hynny'n frwdfrydig mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r rhai ieuengaf yn defnyddio ystod briodol o strategaethau ffonig i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau darllen yn hyderus, er enghraifft wrth ddilyn cyfarwyddiadau ar sut i groesi'r heol fawr. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn darllen yn gywir mewn cyd-destunau amrywiol yn y ddwy iaith. Maent yn datblygu eu huwch fedrau darllen yn bwrpasol i gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau, er enghraifft wrth ymchwilio i drychineb Aberfan.

Mae medrau ysgrifennu cynnar llawer o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu'n dda. Yn y dosbarth meithrin, mae llawer yn ymarfer creu patrymau yn llwyddiannus gan ddefnyddio gwahanol ddeunyddiau. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn dechrau ysgrifennu mewn ystod briodol o gyd-destunau sy'n cynnwys adolygiad o'u hoff lyfr Cymraeg. Mae gan lawer o ddisgyblion Blwyddyn 4 ddealltwriaeth gynyddol o strwythur a chywirdeb yr iaith, sy'n cynnwys y defnydd cywir o ferfau a threigladau. Mae llawer ar frig yr ysgol yn datblygu eu medrau ysgrifennu estynedig yn briodol, er enghraifft trwy greu dyddiadur plentyn oedd yn gweithio yn y pyllau glo yn 1862. Er hyn, cyfyng yw'r cyfleoedd a roddir i ddisgyblion Blynyddoedd 3 i 6 gymhwyso'u medrau ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau mathemategol y rhan fwyaf yn datblygu'n dda wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Maent yn cyfrifo'n hyderus ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu ac yn cymhwyso'u dealltwriaeth mewn amrywiol gyd-destunau mathemategol fel arian, siâp a mesur.

Yn y dosbarthiadau dysgu sylfaen, sef y meithrin, derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfri’n hyderus ac yn defnyddio arian mewn gwahanol gyd-destunau. Er enghraifft, mae un grŵp yn y dosbarth derbyn yn ysgrifennu rhestr siopa ac yn prynu’r cynnwys yn y siop gan ddefnyddio arian parod. Erbyn Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf yn trefnu rhifau’n gywir, yn deall gwerth lle a bondiau rhif ac yn gwybod faint o newid i’w roi i’w cyfoedion allan o bunt yn y siop flodau. Erbyn iddynt gyrraedd brig yr ysgol, mae’r rhan fwyaf yn deall sut i ddefnyddio’u medrau mathemategol mewn gwahanol sefyllfaoedd. Er enghraifft, maent yn cyfri cost defnyddio offer trydanol am gyfnod penodol neu gost gwneud brecwast Cymreig.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio’u medrau mathemategol yn hyderus yn yr heriau thema dyddiol. Maent hefyd, ar adegau llai rheolaidd, yn eu defnyddio mewn ychydig o feysydd eraill y cwricwlwm, fel mewn ymchwiliadau gwyddonol. Er hyn, cyfyng yw’r cyfleoedd a gânt i gymhwyso a gwella eu medrau rhifedd mewn sefyllfaoedd go iawn ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n effeithiol wrth iddynt symud drwy’r ysgol. Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion ieuengaf yn defnyddio apiau yn gynyddol hyderus i gefnogi eu datblygiad ieithyddol a mathemategol fel cyfateb sain a llun, neu i greu graff syml i gyfleu sut maent yn teithio i’r ysgol. Erbyn Blwyddyn 4, mae llawer yn creu cyflwyniadau diddorol am eu hunain ac yn defnyddio gwefannau addas i ymchwilio am wybodaeth. Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion hŷn yn defnyddio amrywiaeth o raglenni addas yn hyderus ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn defnyddio medrau codio i symud teclynnau digidol o borthladd Abertawe i fannau eraill o amgylch y byd. Mae’r Dewiniaid Digidol yn cefnogi eu cyfoedion yn effeithiol i ddefnyddio’r dechnoleg ac i ddatblygu eu dealltwriaeth yn dda o sut i gadw’n ddiogel ar y we.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn briodol. Er enghraifft, maent yn cydweithio ag artist lleol i greu murlun lliwgar ‘O bont i Bont’ i ddarlunio delweddau o adeiladau pwysig y pentref. Mae nifer o’r disgyblion yn cael gwersi offerynnol ac yn datblygu eu medrau cerddorol yn dda drwy berfformio i wahanol gynulleidfaoedd yn achlysurol.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae lles ac agweddau cadarnhaol y disgyblion at ddysgu yn gryfder. Mae bron bob un o’r disgyblion yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth. Maent yn falch i fod yn rhan o ysgol cyfrwng Cymraeg ac yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a’u trin yn deg gan oedolion. Mae hyn yn cyfrannu at yr ethos cyfeillgar sy’n rhan mor amlwg o fywyd bob dydd yr ysgol.

Mae’r rhan fwyaf yn dangos parch at eu cyfoedion ac oedolion ac yn ymateb yn briodol i sefyllfaoedd sy’n effeithio ar eu lles emosiynol. Mae bron bob un o’r disgyblion yn teimlo’n hyderus fod yr ysgol yn ymdrin yn gyflym ac yn effeithiol gydag unrhyw achosion o anghydweld neu fwlio honedig a godir. O ganlyniad, mae bron bob un yn teimlo’n ddiogel rhag cam-drin corfforol a geiriol.

Mae bron bob un o’r disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn. Maent yn barod i ymgymryd â’r gweithgareddau a ddarperir ar eu cyfer ac yn mynd ati â brwdfrydedd a

gwydnwch i gyflawni eu tasgau. Maent yn canolbwyntio'n dda am gyfnodau estynedig ac yn dangos dyfalbarhad wrth ddatrys problemau. Mae disgyblion Blwyddyn 2, er enghraifft, yn dyfalbarhau'n dda i ddod o hyd i'r deunyddiau mwyaf addas i greu argae i atal llif afon.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o'r angen i gadw'n heini a bwyta diet cytbwys ac maent yn defnyddio'r ddealltwriaeth hon i wneud dewisiadau iach yn eu bywyd bob dydd. Maent yn esbonio pam mae'n fuddiol i fwyta byrbrydau iach yn ystod amser egwyl ac i osgoi bwydydd sydd â gormod o fraster a halen. Mae'r rhan fwyaf yn gwerthfawrogi pwysigrwydd gwneud ymarfer corff yn rheolaidd ac yn mwynhau cymryd rhan mewn sesiynau corfforol a chlybiau chwaraeon allgyrsiol.

Mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o'u hawliau ac am bwysigrwydd annog cydraddoldeb a bod yn ddinasyddion moesol. Yn eu gwasanaeth ar Ddydd Ewyllys Da, maent yn rhannu'r neges bwysig am yr angen iddynt weithredu'n deg a hybu gwrth-hiliaeth yn eu bywyd bob dydd. Mae disgyblion o wahanol ddosbarthiadau yn cyfleu'r neges hon yn glir mewn gwahanol ieithoedd, gan gynnwys iaith arwyddo. Mae'r rhan fwyaf yn dangos empathi tuag at eraill ac maent yn aml yn cefnogi gweithgareddau dyngarol fel codi arian at ysbytai lleol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau arwain yn gydwybodol ac effeithiol. Mae nifer yn cynrychioli eu cyfoedion yn frwd ar y gwahanol gynghorau ysgol. Maent yn trafod eu cyfrifoldebau arwain yn hyderus ac yn cynnig rhesymau dilys dros wneud penderfyniadau. Maent yn rhannu eu gwybodaeth a'u profiadau â'u cyfoedion er mwyn annog ymdeimlad cryf o dîm. Mae llais y disgybl yn amlwg ym mywyd bob dydd yr ysgol. Er enghraifft, maent yn cyfrannu syniadau at eu dysgu a'u syniad nhw oedd rhoi 'mainc amser tawel' ar yr iard i hyrwyddo'u lles.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys, ac yn seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig i'r disgyblion o fewn eu cymuned a thu hwnt. Mae'r staff yn sicrhau bod y ddarpariaeth wedi ei seilio ar weledigaeth gwricwlaidd y staff ac yn gyfrwng i ddisgyblion wneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh, ymysg eraill. Mae'r gweithgareddau yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau cyfredol y disgyblion yn y meysydd hyn. Mae staff yn hyrwyddo manteision dysgu Cymraeg a bod yn amlieithog yn effeithiol iawn. O ganlyniad, mae ethos Cymreig cryf yn bodoli yn yr ysgol ac mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn falch iawn o fod mewn ysgol cyfrwng Cymraeg ac yn defnyddio'r iaith â balchder.

Mae staff yn cydweithio'n briodol i greu trosolwg o themâu sy'n darparu profiadau dysgu diddorol a pherthnasol sy'n ysgogi ac yn herio'r ystod lawn o ddisgyblion. Maent yn arwain y meysydd dysgu a phrofiad yn unol â'u diddordebau a'u harbenigedd. Ar y cyfan, maent yn cynllunio'n bwrpasol i sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau gwerthfawr sy'n datblygu eu medrau'n briodol. Drwy gynllunio'r thema 'Wrth ein Traed', er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd i'r disgyblion ieuengaf ddysgu am eu hardal leol tra bod gwaith disgyblion y dosbarthiadau hŷn yn seiliedig ar 'Un Llun', sef llun o Abertawe a ddarluniwyd ym 1840. Fodd bynnag, nid yw'r athrawon bob amser yn cynllunio digon o gyfleoedd i ddisgyblion wella ac atgyfnerthu eu medrau ysgrifennu estynedig na rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Trwy hyrwyddo cyfres o heriau thema yn wythnosol, mae athrawon yn cyflwyno tasgau priodol i'r disgyblion sy'n seiliedig ar eu syniadau hwythau. Mae hyn yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o wahanol elfennau'r cwricwlwm ac yn datblygu eu medrau dysgu annibynnol a'u gallu i gydweithio'n llwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion yn cymharu hen luniau â rhai diweddar neu'n ymchwilio i gymeriad mewn llun a chreu perfformiad byr i'r dosbarth yn seiliedig arno.

Gwneir defnydd effeithiol o ymwelwyr i gyfoethogi'r cwricwlwm ymhellach. Er enghraifft, mae rhiant sy'n arbenigo mewn arlunio yn cydweithio â disgyblion i greu gwaith celf yn seiliedig ar yr ardal leol a mannau ehangach ar un o'r waliau, a rhiant arall yn arwain sesiynau gwyddonol.

Mae gan y rhan fwyaf o'r athrawon a'r staff cynorthwyol ddisgwyliadau uchel o bob disgybl. Maent yn meithrin arferion dysgu cadarnhaol a chefnogol sy'n annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu o oedran ifanc. Mae gwybodaeth bynciol athrawon yn gadarn. Mae hyn yn eu galluogi i ddarparu profiadau dysgu diddorol a pherthnasol i'r disgyblion sy'n datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn barhaus. Mae mwyafrif yr athrawon yn modelu iaith yn arbennig o dda ac yn esbonio'u disgwyliadau'n  glir er mwyn sicrhau bod bob un disgybl yn deall beth sydd angen iddynt ei wneud. Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn adnabod anghenion y disgyblion yn dda ac yn sicrhau eu bod yn darparu her briodol i'w galluogi i wneud cynnydd cyson.

Mae'r amgylchedd dysgu'n cynnwys mannau ysgogol a difyr lle gall pob grŵp o ddisgyblion ddysgu'n gynhyrchiol. Mae arddangosfeydd yn gyfuniad o waith disgyblion ac oedolion ac yn cefnogi'r dysgu'n llwyddiannus. Er hyn, prin yw'r adnoddau dysgu yn yr ardaloedd allanol sy'n cefnogi dysgwyr i gynhwyso eu medrau mewn gweithgareddau dysgu go iawn.

Mae'r athrawon yn defnyddio'r wybodaeth o ddeilliannau dysgu dyddiol yn dda, gan gynnwys arsylwadau'r staff cynorthwyol, i gynllunio gwersi a'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion. Maent yn adnabod eu disgyblion yn dda, yn canmol eu hymdrechion ac yn eu hannog i lwyddo. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn hyderus i roi cynnig arni ac yn hapus i ddysgu o'u camgymeriadau.

Mae adborth llafar ac ysgrifenedig staff yn helpu disgyblion i wybod pa mor dda maent yn ei wneud a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella. Maent yn defnyddio cod marcio cytûn yn rheolaidd i ehangu dealltwriaeth y disgyblion o'r rhinweddau da yn eu gwaith a hefyd sut i'w wella. Mae staff yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion hunanwerthuso'u gwaith yn unol â'r meini prawf llwyddiant, er prin yw'r cyfleoedd iddynt asesu gwaith eu cyfoedion.

Mae'r prosesau olrhain cynnydd disgyblion, er yn lled newydd, yn fodd synhwyrol i gofnodi'r holl wybodaeth sydd gan staff ar gynnydd y disgyblion mewn meysydd penodol mewn un man. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau hyn wedi cael amser i sefydlogi er mwyn rhoi darlun cyflawn o gynnydd disgyblion dros gyfnod.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned gartrefol a chynhwysol sy'n hyrwyddo lles disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r berthynas waith gynhaliol a chyfeillgar sy'n bodoli rhwng staff a

disgyblion yn nodwedd arbennig. Mae athrawon a staff cynorthwyol yn sicrhau bod disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) neu anghenion lles emosiynol yn derbyn cefnogaeth effeithiol. Mae hyn yn sicrhau bod bron bob disgybl yn llwyddo i ymgysylltu'n dda â'u dysgu ac yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol. Mae trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol brosesau priodol i gofnodi cynnydd a lles disgyblion sydd ag ADY. Mae'r staff yn adnabod anghenion y disgyblion hyn yn gynnar ac yn darparu cymorth pwrpasol ac effeithiol iddynt. O dan arweiniad y cydlynydd ADY, mae'r staff yn cefnogi'r disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio ystod o ddulliau ymyrraeth yn effeithiol i wella lles a datblygu medrau cymdeithasol disgyblion.

Maent yn darparu ystod o raglenni cefnogi pwrpasol sy'n datblygu medrau llythrennedd disgyblion yn effeithiol. Mae gan y staff berthynas waith gynhyrchiol â rhieni disgyblion sydd ag ADY. Maent yn cynnwys y rhieni yn y broses adolygu cynnydd cyn gosod targedau cyrhaeddiad pellach ar eu cyfer. Mae'r sesiynau ymdawelu yn ystod cyfnodau cofrestru ar ddechrau'r dydd yn effeithiol i sicrhau bod disgyblion yn cael amser i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt cyn cychwyn eu tasgau dysgu.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion uniaethu â'r gymuned leol a'r byd ehangach. Rhoddir cyfleoedd gwerthfawr iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, fel cyngherddau yn y capel lleol neu'r carnifal. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion cydwybodol a sensitif. Er enghraifft, caiff y disgyblion hŷn eu hannog i ddarparu sesiynau chwaraeon i'w cyfoedion ifancaf yn ystod amser egwyl. Yn ogystal, mae staff yn cynllunio profiadau pwrpasol i ddisgyblion gymryd rhan mewn cystadlaethau a pherfformiadau. Er enghraifft, mae côr yr ysgol yn ymweld â'r gymuned leol ac mae disgyblion yn cystadlu yn eisteddfod yr Urdd yn flynyddol.

Trwy ystod o gyfleoedd pwrpasol, mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn briodol. O fewn y gwasanaethau torfol a dosbarth, mae'r staff yn trafod hawliau plant yn gyson a sut y gallant fod yn ddinasyddion da o fewn eu cymdeithas. Darperir cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn achlysuron dyngarol cenedlaethol, fel codi arian at elusennau lleol a chenedlaethol. Ym mlynyddoedd hŷn yr ysgol, mae athrawon yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd. Gwnânt hyn drwy ymgymryd â gwahanol brosiectau penodol, fel y prosiect 'helpwyr hinsawdd' lle maent yn plannu hadau a blodau o gwmpas yr ysgol i'w harddu.

Trwy gyfrwng themâu diddorol ac ymweliadau addysgol, mae'r staff yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant Cymru yn dda. Er enghraifft, mae'r staff yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymweld â lleoliadau hanesyddol, gan gynnwys Sain Ffagan a gorsaf bad achub y Mwmbwls, ac yn eu haddysgu am chwedlau traddodiadol Cymru fel Clychau Cantre'r Gwaelod.

Mae amrywiol bwyllgorau'r disgyblion yn cynnig cyfleoedd cyson iddynt wneud penderfyniadau pwysig, gan gynnwys trefniadau eistedd amser cinio a chynnal gweithgareddau chwaraeon yn ystod amser egwyl. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd

gwerthfawr i ddisgyblion hŷn ddatblygu eu dealltwriaeth o fenter busnes, er enghraifft trwy fod yn gyfrifol am weinyddu'r ffair lyfrau.

Mae trefniadau'r ysgol i fonitro presenoldeb a phrydlondeb yn gadarn. Mae'r arweinwyr yn cysylltu â'r rhieni'n brydlon i drafod unrhyw bryder ac yn defnyddio swyddog presenoldeb a lles yr awdurdod lleol yn effeithiol, pan fydd angen.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol wedi bod yn ansefydlog dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Yn ystod y cyfnod hwn, camodd y dirprwy i'r adwy fel pennaeth dros dro hyd y penodwyd pennaeth newydd a ddechreuodd ar ei gwaith ddechrau tymor yr haf. Yn ystod y cyfnod hwn, cyflwynodd y pennaeth dros dro a gweddill aelodau'r uwch dîm arwain nifer o weithdrefnau strategol i geisio symud yr ysgol ymlaen.

Mae gan y pennaeth newydd weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol. Mae honno'n seiliedig ar ddarparu profiadau dysgu eang, cyffrous a diddorol i'r disgyblion, sy'n eu hysgogi i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol a brwdfrydig. Mae'n awyddus bod yr ysgol yn rhoi cyfleoedd eang i ddisgyblion gyfrannu eu syniadau hwythau i'r cynlluniau er mwyn sicrhau bod ganddynt berchnogaeth dda ohonynt. Mae hefyd yn awyddus i barhau â nod y dirprwy bennaeth i sefydlu gweithlu sy'n cydweithio'n effeithiol fel tîm.

Mewn amser byr iawn, ers iddi gychwyn yn y swydd, mae'r pennaeth newydd wedi adnabod yn dda gryfderau'r ysgol a meysydd pwysig sydd angen eu gwella. Mae wedi ymateb yn ddiymdroi i'r meysydd pwysicaf sydd angen eu gwella. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau bod yr adeilad a'r safle o gwmpas yr ysgol yn ddiogel, a chyflwyno prosesau cynhwysfawr i gofnodi ac olrhain cynnydd y disgyblion. Cefnogir y pennaeth yn gynyddol effeithiol gan aelodau'r uwch dîm arwain. Ar y cyd, maent yn rhoi blaenoriaeth gadarn i sicrhau bod yr holl staff yn deall ac yn hyrwyddo diwylliant diogelu a lles disgyblion yn yr ysgol.

O ganlyniad i'r ansefydlogrwydd sylweddol yn yr arweinyddiaeth, nid yw holl amcanion a gweithdrefnau strategol yr ysgol ar hyn o bryd yn ddigon miniog, nac yn canolbwyntio digon ar y ddarpariaeth a'r safonau. Er enghraifft, nid yw gweithdrefnau rheoli perfformiad staff wedi sefydlogi. Mae hyn yn golygu nad yw pob un o'r athrawon a'r staff cynorthwyol bob amser yn derbyn canmoliaeth am gyflawni eu gwaith yn effeithiol nac yn derbyn cyngor a chefnogaeth i'w galluogi i wella'u harfer mewn meysydd penodol yn amserol, lle bo angen.

At ei gilydd, yn hanesyddol, aelodau'r uwch dîm arwain sy'n cyflawni'r gweithgareddau monitro ac ychydig iawn mae'r arweinwyr yn ymgysylltu ag ystod o bartneriaid, gan gynnwys gweddill y staff, y disgyblion a rhieni yn y broses. Er bod y blaenoriaethau gwella cyfredol yn rhai synhwyrol, nid ydynt yn deillio'n uniongyrchol o'r prosesau hunanwerthuso. Nid yw dulliau monitro arweinwyr i werthuso cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau yn ddigon miniog i weld y gwir effaith ar safonau. Er gwaethaf hyn, mae'r addysgu'n gadarn ym mron pob dosbarth, a'r gofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion yn effeithiol. O ganlyniad, mae lles y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarn ac maent yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu o'u mannau cychwyn.

Er nad yw'n deillio o'r trefniadau rheoli perfformiad, mae diwylliant yr ysgol i hybu a chefnogi dysgu proffesiynol yr athrawon wedi gwella yn ystod y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf. Bellach, rhoddir ffocws clir ar finiogi medrau'r staff i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru a chynnal rhaglenni penodol i wella medrau llythrennedd, mathemateg a lles disgyblion. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau yn y meysydd hyn.

Mae arweinwyr wedi dechrau mynd i'r afael â nifer o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn briodol, fel diogelu disgyblion, cyflwyno gofynion y bil ADY, a gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Maent yn gwneud penderfyniadau synhwyrol mewn perthynas â gwariant, ac yn sicrhau bod arian yn cael ei glustnodi i ddatblygu'r blaenoriaethau yn briodol yn y cynllun datblygu. Maent yn gwneud defnydd effeithlon o'r grant datblygu disgyblion i dargedu lles a llythrennedd disgyblion bregus.

Ar y cyfan, mae'r llywodraethwyr yn deall ac yn cyflawni eu dyletswyddau statudol yn briodol yn y rhan fwyaf o feysydd, fel sicrhau bod sefyllfa staffio'r ysgol yn addas. Maent yn sicrhau bod y bwyd a diod a ddarperir gan yr ysgol yn cydymffurfio â deddfwriaeth a bod ganddi drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Er bod y llywodraethwyr yn meddu ar wybodaeth gyffredinol am gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu, sylfaenol yw eu dealltwriaeth o'r elfennau hyn. Maent yn dibynnu gormod ar arweiniad gan y staff wrth bennu'r blaenoriaethau gwella ac yn tueddu i ddarparu mwy o gymorth na her yn eu rôl fel cyfeillion beirniadol.

Mae arweinwyr wedi hen sefydlu perthynas gynhyrchiol â rhieni. Maent yn sicrhau bod ganddynt ddulliau effeithiol o gyfathrebu i godi unrhyw faterion sy'n ymwneud â dysgu a lles eu plentyn. Mae cysylltiad hynod effeithiol yn bodoli rhwng mwyafrif yr athrawon dosbarth a'r rhieni i rannu gwybodaeth am eu plant.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/07/2023